## Gethsemane

Gethsemane (dyffryn yr olew), pentref ar Fynydd yr Olewydd, yn agos i Jerwsalem, lle, yn debygol yr oedd olew-wryf. Yma byddai ein Hiachawdwr yn ymneilltuo weithiau o Jerwsalem; ac mewn gardd gyfagos y bu yn ei ymdrech chwerw yn chwysu'r gwaed yn ddafnau i'r llawr, lle daliwyd ef gan Jwdas a'i fyddin (gweler Mathew 26:36–50).

***Thomas Charles***

## Gardd Gethsemane

**Marc 14:32; Ioan 18:1–11**

Bûm bedair ar bymtheg o weithiau yng Ngardd Gethsemane, yn arwain pererinion, i'r ardd sydd yn bwysig yn wythnos fawr gweinidogaeth Iesu. Ni fethodd y pererinion â chanu emyn y Methodist Calfinaidd o Dalyllychau, Thomas Lewis (1760–1842), blaenor ac arloesydd yr achos. Gof na welodd erioed mo'r ardd ar waelod Mynydd yr Olewydd, ond am ei fod ef yn olau yn yr Ysgrythurau cipiodd yr awyrgylch.

'Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,
a'i chwŷs fel defnynnau o waed,
aredig ar gefn oedd mor hardd,
a'i daro â chleddyf ei Dad,
a'i arwain i Galfari fryn
a'i hoelio ar groes bren o'i fodd;
pa dafod all dewi am hyn?
Pa galon mor galed na thodd?

Nid oes raid i Thomas Lewis ofni o gwbl. Bu'r tafodau o Gymry yn canu yno bob amser, a gwelais aml i ddeigryn hefyd ar ruddiau y pererinion a fu ar daith yn ôl traed Iesu.

Nid yw'r un o'r efengylau'n enwi'r fangre, ond mae Ioan yn sôn fod y disgyblion wedi dod i'r ardd ar ôl croesi afon Cedron.

Yn yr ardd y cyfarfu Iesu â Jwdas, ynghyd â heddlu'r Deml. Ar ôl i'r disgybl fradychu ei arweinydd â chusan, fe ddaliwyd Iesu er mwyn ei hebrwng i Lys yr Archoffeiriad. Y mae cryn wahaniaeth rhwng adroddiad Ioan ac adroddiadau Marc, Mathew a Luc. Nid yw Ioan yn rhoddi cyfeiriad o gwbl at weddi Iesu am i Gwpan y Gofid gael ei gymryd oddi wrtho, ond eto, os oedd rhaid ei yfed, ni wrthodai'r Gwas Dioddefus. Nid yw Jwdas chwaith, yn ôl Ioan, yn ymddwyn fel bradwr. Y mae'n sefyll yn ei unfan fel un oedd mewn gofid dwys. Y mae Iesu yn rhoddi ei hunan i'r awdurdodau heb brotest yn y byd, nes synnu a rhyfeddu heddlu'r Deml. Y mae'r olygfa yn gryn wahanol i adroddiad Marc, ond yn cyd-fynd â diwinyddiaeth Ioan am y Logos, 'a'r Gair a ddaeth yn Gnawd, a ni a welsom ei Ogoniant Ef'. A gwelir ei ogoniant yn yr Ardd fel ag yn ei ing a'i angau.

***D. Ben Rees***